# Cyfrifiad 2021

## Adroddiad Pwnc y Gymraeg

Rhagfyr 2022

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Caru·Love Ceredigion

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# PRIF GANLYNIADAU

## 31,678

Siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion

(Mawrth 2021)







## 45.3%

o boblogaeth Ceredigion yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg

## 2.0

Gostyngiad pwynt canran yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg ers 2011





## -3,286

o siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion ers Cyfrifiad 2011

## 59.0%

Yn gallu siarad Cymraeg yn ACEHI Aberaeron, y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg ar draws y Sir

(Y gyfan isaf yw ACEHI Penglais 1 19.7%)





**Dadansoddiad o Sgiliau**

Siarad Cymraeg – 45.3%

Gallu siarad Cymraeg, darllen Cymraeg ac ysgrifennu yn Gymraeg – 37.3%

Dim sgiliau Cymraeg – 43.6%

## 46.7%

o breswylwyr Ceredigion yn nodi "Cymreig yn unig" fel eu cenedligrwydd

(cynnydd o 0.1 pwynt canran ers Cyfrifiad 2011)





**Dadansoddiad o siaradwyr Cymraeg yn ôl oedran**

3-15: 71.8%

16-64: 42.4%

65+: 39.9%



Ffynonellau: SYG, Cyfrifiad 2011: Tabl – KS207A, DC2106Wala, K208WA a Chyfrifiad 2021: Tabl – TS033, TS032, TS076.

# CRYNODEB

## CYMRU

- Yn 2021, nododd tua **538,000 o breswylwyr arferol** 3 oed neu'n hŷn yng Nghymru (17.8%) eu bod **yn gallu siarad Cymraeg**, sy'n ostyngiad ers 2011 (562,000, 19.0%).
- O blith holl awdurdodau lleol Cymru, roedd **y ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg** yng **Ngwynedd** (64.4%). **Ynys Môn** (55.8%) oedd yn ail a **Cheredigion** (45.3%) oedd yn drydydd.
- **Bu'r gostyngiad mwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin**, lle'r oedd y ffigurau 4.1 pwynt canran yn is. **Gwelwyd y cynnydd mwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd** lle'r oedd y ffigurau 1.1 pwynt canran yn uwch ers Cyfrifiad 2011.

## CEREDIGION

- **Nododd ychydig o dan hanner y boblogaeth (45.2% / 31,680 o breswylwyr) eu bod yn gallu siarad Cymraeg**. Golyga hyn fod **3,290 yn llai o siaradwyr Cymraeg** yn y sir ers 2011 (2 bwynt canran yn is)
- Mae'r ffigurau o ran **nifer y siaradwyr Cymraeg wedi bod ar i lawr ers Cyfrifiad 1981**. Er hyn, bu'r gostyngiad dros y degawd diwethaf yn arafach o gymharu â'r cyfnod rhwng Cyfrifiad 1991 a Chyfrifiad 2001 a'r cyfnod rhwng Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011.
- Gwnaeth yr **arolygon** a gynhaliwyd yn y blynyddoedd cyn Cyfrifiad 2021 **ddangos darlun mwy cadarnhaol**. Serch hynny, roedd yr arolygon hyn yn seiliedig ar sampl benodol o bobl yn hytrach na'r boblogaeth gyfan.

## CEREDIGION – SIARADWYR CYMRAEG YN ÔL OEDRAN

- **Plant a phobl ifanc yw'r grŵp oedran sy'n fwyaf tebygol o siarad Cymraeg yng Ngheredigion**. Nid yw hyn wedi newid dros y blynyddoedd ac mae'n dangos dylanwad cadarnhaol ein system addysg ar sgiliau iaith plant ysgol.
- **Mae proffil oedran yr oedolion sy'n medru siarad Cymraeg yn newid.** Yn 2021, pobl rhwng 20 a 44 mlwydd oed oedd yn fwyaf tebygol o siarad Cymraeg (43.1%/8,585 o breswylwyr). Yn 2011, pobl 75 oed ac yn hŷn oedd yn fwyaf tebygol o siarad yr iaith (50.1%/3,630 o breswylwyr).
- Y prif ffactor a gyfrannodd at y gostyngiad cyffredinol yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion ers Cyfrifiad 2011 oedd y **gostyngiad yn nifer y plant a phobl ifanc rhwng 3 a 15 mlwydd oed a fedrai siarad Cymraeg** (6.6 pwynt canran yn is), **a'r gostyngiad yn nifer y bobl 65 mlwydd oed ac yn hŷn a fedrai siarad Cymraeg** (6.5 pwynt canran yn is).
- Mae'r **gostyngiad a gafwyd yn nifer a chanran y plant sy'n medru siarad Cymraeg yn duedd newydd** ac mae hyn yn bryder.

Er y cafwyd gostyngiad cyffredinol yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg, bu **cynnydd yng nghyfran yr oedolion sy'n medru siarad Cymraeg (pobl rhwng 16 a 44 mlwydd oed) ers Cyfrifiad 2011 (cynnydd o 2.2 pwynt canran).** Mae'r duedd newydd hon yn un gadarnhaol, sy'n awgrymu bod cynnydd yn cael ei wneud o ran cadw siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion.

## CEREDIGION – Y SEFYLLFA AR HYD A LLED Y SIR



- Roedd y **ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg** (tair blwydd oed ac yn hŷn) yn **Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is Aberaeron** (59.0%). Yn 2011, **Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is** Tregaron oedd â'r ganran uchaf (66.9%).
- Mae'r mannau lle ceir y **cyfrannau isaf o siaradwyr Cymraeg wedi'u lleoli yn nhref Aberystwyth**. Nid yw hyn yn syndod o ystyried bod nifer fawr o fyfyrwyr yn y dref.
- Yn gyffredinol, mae canran y siaradwyr Cymraeg ar draws y Sir wedi gostwng ers 2011. Er hyn, mae cyfran y siaradwyr Cymraeg wedi **cynyddu yn 8 o'r 45 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is** yng Ngheredigion. Roedd y **cynnydd mwyaf yn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is Llanbedr Pont Steffan 1** (7.9 pwynt canran yn uwch).
- O ran Wardiau Etholiadol, **Ward Ystwyth oedd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg** (57.2%). **Ward Aberystwyth Rheidol oedd â'r ganran isaf o siaradwyr Cymraeg** (27.6%).
- O ran newidiadau yn y pwyntiau canran, **cafwyd y gostyngiad mwyaf** yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn **Ward Llangeitho** (7.5 pwynt canran yn is). Ar y llaw arall, **gwelwyd y cynnydd mwyaf ers 2011 yn Ward Llanbedr Pont Steffan** (1.9 pwynt canran yn uwch).

## CEREDIGION – SGILIAU ERAILL O RAN Y GYMRAEG



- O edrych ar y sgiliau eraill o ran y Gymraeg, roedd y **gostyngiad mwyaf** i'w weld yng nghanran y bobl dair blwydd oed ac yn hŷn oedd yn "**gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg**" (roedd y ffigwr hwn 1.0 pwynt canran yn is; cwymp o 38.3% i 37.3%.)
- Roedd canran y bobl a nodai eu bod yn medru "**deall Cymraeg llafar yn unig**" wedi cynyddu o 8.1% (6,020) yn 2011 i 8.5% yn 2021 (0.4 pwynt canran yn uwch).

## CEREDIGION – FFACTORAU SY'N CYFRANNU AT BROFFIL IAITH GYMRAEG CEREDIGION



- Er mwyn medru gwir ddeall y ffactorau sy'n gyfrifol am y gostyngiad cyffredinol yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion, mae angen **mwy o ddata arnom o Gyfrifiad 2021**. Serch hynny, mae modd ystyried rhai ffactorau.
- Mae'r gostyngiad hwn wedi digwydd yn ystod cyfnod pan welwyd **newid yn y ddemograffeg**. Cafodd **llai o fabanod eu geni** yng Ngheredigion ac mae nifer o'r to hŷn sy'n siaradwyr Cymraeg wedi ein gadael ni. Ar yr un pryd, mae **canran y preswylwyr nad ydynt wedi'u geni yn y Deyrnas Unedig a phreswylwyr nad ydynt wedi'u geni yng Nghymru wedi cynyddu**.
- **Mae nifer o'n pobl ifanc wedi symud o Geredigion i Gaerdydd** ar gyfer addysg uwch, swyddi a chyfleoedd cymdeithasol. Mae'n debygol bod gan rywfaint o'r garfan hon y gallu i siarad Cymraeg. Yn ogystal, rydym yn ymwybodol y bydd rhai ohonynt yn aros yn y ddinas ac y bydd eraill yn dychwelyd i Geredigion i gael bywyd llai prysur ac i ddechrau teulu.
- Cynhaliwyd **Cyfrifiad 2021 yn ystod pandemig COVID-19**. Mae'n bosibl bod pandemig COVID-19 **wedi effeithio'n negyddol ar y ffordd y gwnaeth rhai pobl ateb y cwestiynau am eu gallu o ran y Gymraeg.** Serch hynny, mae'n anodd dweud i ba raddau y mae hynny'n wir.
- Mae ymchwil wedi dangos bod cyfnodau hir o beidio â gweld eu hathrawon a'u cyfoedion yn debygol o fod wedi **effeithio'n negyddol** ar **hyder** a **rhuglder** y plant o ran y Gymraeg.
- Adeg cynnal y Cyfrifiad, mae'n bwysig nodi mai dim ond ers pedair blynedd yr oedd Cymraeg 2050 wedi bod ar waith, a bod pandemig Covid-19 wedi digwydd yn ystod y cyfnod hwnnw. Felly, mae dal digon o resymau i fod **yn obeithiol y gallwn ni gyflawni'r targed cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.**

# Tabl Cynnwys


1.0 Cyflwyniad .......... 1
1.1 Cefndir .......... 1
1.2 Targedau cenedlaethol a lleol .......... 1
2.0 Cymru: trosolwg .......... 2
2.1 Gallu siarad Cymraeg – Cymru .......... 2
2.2 Symudedd poblogaeth .......... 6
2.3 Sgiliau iaith .......... 6
3.0 Ceredigion trosolwg .......... 7
3.1 Gallu siarad Cymraeg yng Ngheredigion .......... 7
3.2 Dosbarthiad siaradwyr Cymraeg yn ôl oedran .......... 11
3.3 Y sefyllfa yn lleol .......... 15
3.4 Sgiliau Cymraeg .......... 18
4.0 Ffactorau sy'n cyfrannu at broffil Cymraeg Ceredigion .......... 19
4.1 Symudedd poblogaeth .......... 19
4.2 Hunaniaeth Genedlaethol .......... 20
4.3 Pandemig COVID-19 .......... 21
5.0 Casgliad .......... 22
Atodiad 1 .......... 23
Siaradwyr Cymraeg Ceredigion yn ôl ACEHI – canrannau a niferoedd .......... 23
Siaradwyr Cymraeg Ceredigion yn ôl wardiau etholiadol – canrannau a niferoedd .......... 24
Ymwadiad newid ffin ACEHI (Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is). .......... 25
Ymwadiad newid ffin ward etholiadol. .......... 26
Cyfeiriadau .......... 27

# 1.0 Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir

Mae'r Papur Pwnc hwn yn rhan o gyfres o bum adroddiad pwrpasol Cyngor Sir Ceredigion sy'n dadansoddi canlyniadau Cyfrifiad 2021. Mae'r adroddiad hwn yn edrych yn benodol ar y Gymraeg yng Ngheredigion, gan nodi'r canlyniadau a thueddiadau allweddol. Ei nod yw ategu dealltwriaeth y Cyngor o sgiliau Cymraeg yn y Sir a darparu man cychwyn ar gyfer cynnal yr asesiad o Strategaeth Iaith 2018-23 gyfredol y Cyngor a fydd yn cael ei hailwampio yn 2023. Tra bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar sgiliau Cymraeg, mae'n cyfeirio at genedligrwydd a gwlad enedigol i helpu i ddarparu'r cyd-destun.

Ystyrir mai'r Cyfrifiad yw'r ffynhonnell awdurdodol o wybodaeth am y Gymraeg. Mae cwestiwn ar sgiliau Cymraeg wedi cael ei gynnwys ym mhob cyfrifiad yng Nghymru ers 1891. Fodd bynnag, wrth i ni ddadansoddi'r data o Gyfrifiad 2021, mae'n bwysig cydnabod bod canlyniadau'r Cyfrifiad yn rhoi ciplun o'r boblogaeth ar un adeg benodol (21 Mawrth 2021).

Yn arbennig, cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 yn ystod pandemig COVID-19 sydd wedi effeithio ar y boblogaeth mewn amryw o ffyrdd. Roedd hyn yn dilyn cyfnodau o gyfyngiadau symud, dysgu o bell i blant, ac roedd llawer o bobl yn gweithio gartref. Er ei fod yn anodd ei fesur, mae'n debygol bod y pandemig wedi cael effaith ar allu Cymraeg pobl yng Ngheredigion ac ar draws Cymru gyfan. Felly, bydd ffynonellau eraill megis Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn cael eu hystyried i wella dilysrwydd a dibynadwyedd y casgliadau a wneir.

## 1.2 Targedau cenedlaethol a lleol

Yn 2017 gosododd Llywodraeth Cymru ddau darged uchelgeisiol erbyn 2050, sef cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yn genedlaethol, a dyblu canran y boblogaeth sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd.

Fel un o ofynion Safonau'r Gymraeg ac yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, cynhyrchodd Ceredigion Strategaeth Iaith (2018-2023). Yn y Strategaeth amlinellir sut y bydd Ceredigion yn gweithio gyda sefydliadau partner i hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn yr ardal leol. Roedd y Strategaeth hefyd yn cynnwys targed ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion gan 1.5% i 48.5% (sy'n cyfateb i 1,500 yn fwy o siaradwyr Cymraeg) erbyn 2023.[1] Fel yr adlewyrchir yn yr adroddiad, yn anffodus, nid yw'r targed hwn wedi'i gyrraedd. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth i lywio'r Strategaeth Iaith newydd ar gyfer Ceredigion (2024-2029), ac yn cynnwys targed diwygiedig i'r Sir ei gyrraedd erbyn 2029.


# 2.0 Cymru: trosolwg

## 2.1 Gallu siarad Cymraeg – Cymru

Ers y Cyfrifiad diwethaf yn 2011, mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru wedi gostwng. Yn ôl data'r cyfrifiad, mae hyn yn barhad o'r gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru ers 2001.


Ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021, amcangyfrifwyd bod 538,300 o breswylwyr arferol tair oed neu'n hŷn yng Nghymru yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg (17.8% o'r boblogaeth). Mae hyn yn ostyngiad o 23,700 ers y Cyfrifiad yn 2011, neu'n ostyngiad o 1.2 pwynt canran. Er mai dyma'r ganran isaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru a gofnodwyd erioed mewn cyfrifiad, roedd y nifer gwirioneddol o siaradwyr Cymraeg yn 2021 yn dal yn uwch nag yng nghyfrifiadau 1981 a 1991. Mae Ffigurau 1 a 2 yn nodi canran a nifer y boblogaeth yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl canlyniadau'r Cyfrifiad o 1981-2021.

**Ffigur 1: Canran o'r boblogaeth 3 oed neu'n hŷn yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg 1981-2021**




*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), Cyfrifiad 1981, 1991, 2001, 2011, 2021*[2]

**Ffigur 2: Nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru 3 oed neu'n hŷn o 1981-2021**




*Ffynhonnell: SYG, Cyfrifiad 1981, 1991, 2001, 2011, 2021*[3]

Fel yr adlewyrchir yn Nhabl 1, gellir priodoli tua 74% o'r gostyngiad cyffredinol yn y gallu i siarad Cymraeg ar draws Cymru i'r nifer sylweddol llai o bobl ifanc yn yr ystod oedran 5-15 yn 2021 o'i gymharu â 2011 (-17,600). Hwn oedd y gostyngiad pwynt canran mwyaf (6.0 pwynt canran) mewn unrhyw grŵp oedran. Roedd gostyngiad tebyg ar gyfer plant 3-4 oed, o 23.3% yn 2011 i 18.2% yn 2021, gostyngiad o 5.2 pwynt canran.

Yn gadarnhaol, bu cynnydd bach o 0.5 pwynt canran yng nghanran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn y grwpiau oedran oedolion iau, y rhai 16-19 oed, a'r rhai 20-44 oed, o 0.9 pwynt canran. Fodd bynnag, cafodd y cynnydd hwn ei wrthbwyso gan ostyngiad yn y grwpiau oedran iau a'r grwpiau oedran hŷn (45-64 oed, 65-74 oed a phobl 75 oed neu'n hŷn).

**Tabl 1: Nifer a chanran y bobl tair oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl grŵp oedran, 2011 i 2021.**


| Grŵp oedran | 2011 | | 2021 | | Gwahaniaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | *Nifer* | *%* | *Nifer* | *%* | *Nifer* | *% Pwynt* |
| **3-4** | 16,500 | 23.3 | 11,900 | 18.2 | -4,500 | -5.2 |
| **5-15** | 152,300 | 40.3 | 134,700 | 34.3 | -17,600 | -6.0 |
| **16-19** | 43,700 | 27.0 | 38,800 | 27.5 | -4,800 | 0.5 |
| **20-44** | 150,700 | 15.6 | 153,800 | 16.5 | 3,000 | 0.9 |
| **45-64** | 107,900 | 13.3 | 107,300 | 13.0 | -600 | -0.2 |
| **65-74** | 45,100 | 15.0 | 45,900 | 12.8 | 800 | -2.2 |
| **75+** | 45,800 | 17.5 | 45,800 | 15.1 | 0 | -2.4 |
| **Pob oed (3+)** | **562,000** | **19.0** | **538,300** | **17.8** | **-23,700** | **-1.2** |

*Ffynhonnell: SYG, Cyfrifiad 2011: Tabl KS207WA a Chyfrifiad 2021: Tabl – TS033*[4]
** Efallai na fydd y ffigurau'n adio'n union oherwydd talgrynnu*

Plant ac oedolion ifanc yw'r grŵp oedran sy'n parhau i fod yn sydd fwyaf tebygol o siarad Cymraeg. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod proffil oedran yr oedolion sy'n gallu siarad Cymraeg yn newid. Yn 2021, pobl ifanc rhwng 20 a 44 oed oedd y grŵp oedran sy'n fwyaf tebygol o siarad Cymraeg (16.5%); roedd hyn yn wahanol i 2011 pan oedd y ganran uchaf ar gyfer pobl 75 oed neu'n hŷn (17.5%).

Mae'r niferoedd a'r canrannau uchaf o bobl tair oed neu'n hŷn a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn parhau i'w gweld mewn rhannau o ogledd a gorllewin Cymru, tra bod siroedd y de a'r de-ddwyrain wedi cofnodi'r cyfrannau isaf (gweler Ffigur 3). Yr awdurdod lleol gyda'r ganran uchaf o bobl tair oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg yng Nghyfrifiad 2021 oedd Gwynedd (64.4%). Blaenau Gwent gofnododd y ganran isaf o siaradwyr Cymraeg o fewn ei phoblogaeth tair oed neu'n hŷn, gyda dim ond 6.2% o'r boblogaeth.

**Ffigur 3: Canran y siaradwyr Cymraeg 3 oed neu'n hŷn a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2021 yn ôl awdurdodau lleol Cymru**





*Ffynhonnell: SYG, Cyfrifiad 2021 – Tabl TS032*[5]

Dros y degawd, mae'r newid yn y gallu i siarad Cymraeg ar draws Cymru wedi amrywio. Er bod gostyngiad cyffredinol yn y canrannau a'r niferoedd a adroddwyd, bu'r gostyngiad mwyaf yn y siroedd hynny yn y gorllewin ac yn y canolbarth a'r gogledd-ddwyrain sydd â'r cyfrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg. Yn ddiddorol, yr awdurdodau lleol yn y de-orllewin (Caerdydd, Bro Morgannwg, Rhondda

Cynon Taf a Merthyr Tudful), lle mae rhai o'r cyfrannau isaf o siaradwyr Cymraeg, welodd gynnydd rhwng 2011 a 2021. Mae Ffigur 4 yn amlinellu'r gwahaniaethau yng nghanran y bobl dros 3 oed a oedd yn gallu siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021 yn ôl ardal awdurdod lleol.

**Ffigur 4: Gwahaniaeth pwynt canran siaradwyr Cymraeg 3 oed neu'n hŷn, 2011 i 2021**




*Ffynhonnell: SYG, Cyfrifiad 2011- Tabl KS207WA a Chyfrifiad 2021: Tabl – TS033*[6]

Yn Sir Gaerfyrddin y gwelwyd y gostyngiad mwyaf yng nghanran y bobl tair oed neu'n hŷn a oedd yn gallu siarad Cymraeg, sef gostyngiad o 4. 1 pwynt canran, o 43.9% yn 2011 i 39.9% yn 2021[*]. Caerdydd welodd y cynnydd mwyaf, i fyny o 11.1% yn 2011 i 12.2% yn 2021, cynnydd o tua 6,000 o bobl ac 1.1 pwynt canran.

## 2.2 Symudedd poblogaeth

Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r proffil ieithyddol cenedlaethol dros y degawd ddiwethaf, mae'n bwysig cydnabod y newidiadau demograffig sydd wedi digwydd yn ystod y cyfnod hwn. Gellir priodoli'r gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru i'r canlynol: llai o blant yn cael eu geni yng Nghymru, colli carfannau hŷn sydd â lefelau uwch o siaradwyr Cymraeg a mudo (siaradwyr Cymraeg yn allfudo a'r di-Gymraeg yn mewnfudo). Mae'r adran isod yn ystyried y ffactorau posibl hyn yn fanylach.

Mae poblogaeth Cymru wedi parhau i gynyddu gan tua 1.4% (44,000) o 3,063,000 i 3,107,000 rhwng Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2021.[7] [8] Hon oedd y boblogaeth fwyaf a gofnodwyd erioed trwy gyfrifiad yng Nghymru. Wrth i Gymru brofi twf naturiol negyddol (mwy o farwolaethau na genedigaethau) rhwng 2011 a 2021, mae'r twf yn y boblogaeth yn ganlyniad i fwy o bobl yn symud i Gymru nag yn gadael Cymru.[9]

At hynny, mae cyfran poblogaeth Cymru a gafodd eu geni y tu allan i Gymru wedi cynyddu dros y degawd, o 27.3% (2,226,000) yn 2011 i 29.1% (2,202,100) yn 2021.[10] [11] Gwyddom o gyfrifiadau blaenorol fod pobl a gafodd eu geni y tu allan i Gymru yn llawer llai tebygol o ddweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg na phobl a gafodd eu geni yng Nghymru.

Yn ogystal, mae nifer sylweddol o unigolion a gafodd eu geni yng Nghymru yn byw yn Lloegr. Yn 2011, roedd 506,600 o bobl a gafodd eu geni yng Nghymru yn byw yn Lloegr (0.9% o boblogaeth gyffredinol Lloegr). Erbyn 2021, roedd hyn wedi gostwng ychydig i 478,700 o unigolion, sef 0.8% o boblogaeth Lloegr.[12] Er nad yw'r Cyfrifiad yn casglu gwybodaeth am allu Cymraeg preswylwyr y tu allan i Gymru, mae'n cofnodi eu prif iaith. Yn ôl Cyfrifiad 2021, cofnododd 7,350 o bobl yn Lloegr mai Cymraeg oedd eu prif iaith.[13] Mae'n debygol felly fod rhai o'r boblogaeth a gafodd eu geni yng Nghymru sy'n byw yn Lloegr yn gallu siarad Cymraeg. Fodd bynnag, byddai angen gwneud ymchwil pellach i ddeall hyd a lled gallu'r garfan hon i siarad Cymraeg.

## 2.3 Sgiliau iaith

Nodwedd arall o'r gwahaniaethau a nodwyd rhwng 2011 a 2021 oedd y newid cyffredinol mewn sgiliau iaith pobl rhwng y cyfrifiadau. Gostyngodd y ganran a nododd eu bod yn gallu siarad Cymraeg, darllen Cymraeg ac ysgrifennu yn Gymraeg ychydig o 14.6% i 14.2% (sy'n cyfateb i tua 1,400 yn llai o bobl).[14] Fodd bynnag, roedd hyn yn ostyngiad llai na'r hyn a welwyd yng nghanran a nifer y bobl tair oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg. Ar yr un pryd, gostyngodd y ganran a ddywedodd eu bod yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig (ond ddim yn gallu siarad Cymraeg, darllen Cymraeg nac ysgrifennu yn

[*] *Efallai na fydd y ffigurau'n adio'n union oherwydd talgrynnu.*

Gymraeg) ychydig o 5.3% yn 2011 i 5.2% yn 2021. Yn gyffredinol, dywedodd bron i dri chwarter y boblogaeth tair oed neu'n hŷn (74.8%) nad oedd ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg yn 2021, sy'n gynnydd o 73.3% yn 2011.

# 3.0 Ceredigion trosolwg

## 3.1 Gallu siarad Cymraeg yng Ngheredigion

Ar sail y cyfrifiadau diweddar, i ryw raddau, mae'r tueddiadau yng Ngheredigion yn weddol debyg i'r rhai ar draws Cymru gyfan.

Mae canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn dangos bod canran y preswylwyr arferol tair oed neu'n hŷn yng Ngheredigion sy'n gallu siarad Cymraeg wedi gostwng dros y degawd diwethaf. Ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, dywedodd ychydig llai na hanner y boblogaeth (45.3% / 31,680 o breswylwyr) eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn golled o 3,290 ers Cyfrifiad 2011, gostyngiad o 2.0 pwynt canran, gweler Tabl 2.


**Tabl 2: Canran a nifer y siaradwyr Cymraeg 3 oed neu'n hŷn yng Ngheredigion, Cyfrifiad 2011 a 2021.**

| | 2011 | 2021 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| % Siaradwyr Cymraeg (3 oed neu'n hŷn) | 47.3% | 45.3% | -2.0 pwynt canran |
| Nifer y Siaradwyr Cymraeg (3 oed neu'n hŷn) | 34,960 | 31,680 | -3,290 o bobl |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 SYG: Tabl KS207WA a Chyfrifiad 2021: Tabl – TS033*

Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd canran y preswylwyr tair oed neu'n hŷn a oedd yn gallu siarad Cymraeg yng Ngheredigion yr isaf yn hanes y Cyfrifiad (45.3%). Fel yr adlewyrchir yn Ffigur 5 isod, mae hyn yn barhad o'r duedd ar i lawr yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn y Sir ers Cyfrifiad 1981. Fodd bynnag, roedd cyflymder y gostyngiad yn arafach dros y degawd diwethaf (gostyngiad o 2.0 pwynt canran) o'i gymharu â 1991-2001 (gostyngiad o 5.1 pwynt canran) a hyd at 2001-2011 (gostyngiad o 4.7 pwynt canran).

**Ffigur 5: Canran y preswylwyr 3 oed neu'n hŷn a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg Cyfrifad 1991, 2001, 2011 a 2021**





*Ffynhonnell: SYG, Cyfrifiad 1991, 2001, 2011 a 2021.*[15]*

Yn gadarnhaol, yn 2021 Ceredigion oedd yn parhau i fod yr awdurdod lleol â'r drydedd ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg tair oed neu'n hŷn. Yr awdurdodau lleol gyda chanran uwch o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru oedd Gwynedd (64.4%) ac Ynys Môn (55.8%). Yn hanesyddol mae awdurdodau lleol gogledd-orllewin Cymru yn tueddu i fod â'r nifer a'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg. Mae Ffigur 6 yn nodi canran y siaradwyr Cymraeg dros dair oed ar draws pob un o'r dau ddeg dau o awdurdodau lleol Cymru.

* *Rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r newid yng ngallu'r Gymraeg rhwng cyfrifiadau 1991 a 2001, gan fod newidiadau yn y diffiniad o "boblogaeth breswyl arferol". Ym 1991, cafodd myfyrwyr a phlant ysgol eu cyfrif fel preswylydd yn eu cyfeiriad cartref (cyfeiriad y tu allan i'r tymor ysgol), tra yn 2001 a'r cyfrifiadau dilynol, cawsant eu cyfrif yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor ysgol.*

**Ffigur 6: Canran y siaradwyr Cymraeg 3 oed neu'n hŷn ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru**





*Ffynhonnell: SYG, Cyfrifiad 2021 – Tabl TS033.*

Y Cyfrifiad yw'r ffynhonnell allweddol a ddefnyddir i fesur cyfrannau'r siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, fodd bynnag, nid dyma'r unig ffynhonnell o allu ieithyddol y boblogaeth. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth hefyd yn casglu gwybodaeth am nifer y siaradwyr Cymraeg. Defnyddir y ffynonellau hyn i fonitro tueddiadau ar gyfer oedolion rhwng cyfrifiadau. Mae'n bwysig nodi bod y data a gasglwyd o'r tri arolwg (y Cyfrifiad, Arolwg Cenedlaethol Cymru, a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth) yn seiliedig ar *hunanasesiad* rhywun o'i allu. Mewn rhai achosion, adroddwyd gallu yn y Gymraeg gan rywun arall. Er enghraifft, wrth lenwi ffurflen y cyfrifiad, yn aml roedd gallu plant yn y Gymraeg yn cael ei lenwi gan riant neu warcheidwad.

Er bod canlyniadau'r Cyfrifiad yn dangos gostyngiad graddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion, rhoddodd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ddarlun gwahanol, mwy cadarnhaol yn y cyfnod cyn y cyfrifiad. Amcangyfrifodd yr Arolwg gynnydd cyffredinol yn nifer a chanran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg dros y degawd, gan godi o 54.4% (41,400) i 60.4% (43,200), sef cynnydd o 1,800 (Ffigur 7). Mae canlyniadau'r Arolwg wedi bod yn gyson uwch o lawer na chanlyniadau'r Cyfrifiad, er bod hyn yn seiliedig ar faint sampl o 18,000 o aelwydydd ar draws Cymru bob blwyddyn.

**Ffigur 7: Nifer y bobl 3 oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg 2001-2021**




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru – Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth[16] a'r SYG – Tabl Cyfrifiad 2021: TS033*

Mae canran yr oedolion sy'n siarad Cymraeg (16 oed neu'n hŷn) a gofnodwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru yn debyg i ffigur y Cyfrifiad, gyda 40.8% o'r rhai 16 oed neu'n hŷn yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg (2021-22) o'i gymharu â 41.2 % yng Nghyfrifiad 2021. Ers i'r Arolwg Cenedlaethol ddechrau yn 2016, mae'r duedd gyffredinol yn dangos gostyngiad graddol yn yr oedolion sy'n siarad Cymraeg (16+), o 49% yn 2016-17 i 41% yn 2021-22. Fodd bynnag, ar y llaw arall, adroddir bod canran yr oedolion (16+) sydd â *pheth gallu i siarad Cymraeg* yn codi.[17] Yr hyn sy'n glir o ganlyniadau Cyfrifiad 2021 yw bod anghysondebau o hyd rhwng canlyniadau Cyfrifiad 2021 a ffynonellau eraill yn yr un cyfnod amser.

Mae sawl esboniad pam fod canlyniadau'r cyfrifiad wedi adrodd ffigurau gwahanol i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae un ffactor posibl yn ymwneud â'r gwahanol fethodolegau a ddefnyddiwyd; mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn seiliedig ar sampl o 18,000 o aelwydydd bob blwyddyn, tra bod Arolwg Cenedlaethol Cymru yn seiliedig ar sampl o 10,000 i 14,500 ac felly mae'n debygol y bydd amrywiad. Y Cyfrifiad yw'r agosaf sydd gennym at gyfrif gwirioneddol.

At hynny, mae'r Cyfrifiad yn holiadur hunan-gwblhau statudol ar gyfer y boblogaeth gyfan, tra bod yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac Arolwg Cenedlaethol Cymru yn arolygon gwirfoddol sy'n defnyddio cyfweliadau wyneb yn wyneb, ac yn fwy diweddar, cyfweliadau dros y ffôn. Mae ymatebwyr i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac Arolwg Cenedlaethol Cymru felly yn cael y cyfle i drafod eu gallu yn yr iaith gyda'r cyfwelydd, ond yn y Cyfrifiad rhaid i'r ymatebydd benderfynu drostynt eu hunain. Am y rhesymau hyn, mae'n bosibl bod rhai ymatebwyr a gofnododd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn Arolwg Cenedlaethol Cymru, neu'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, wedi dweud nad oeddent yn gallu gwneud hynny wrth lenwi eu ffurflen Cyfrifiad.

## 3.2 Dosbarthiad siaradwyr Cymraeg yn ôl oedran

Mae’r gallu i siarad Cymraeg yn y Sir yn amrywio'n fawr yn ôl oedran. Yn ôl Cyfrifiad 2021, gostyngodd gallu’r rhan fwyaf o grwpiau oedran i siarad Cymraeg dros y degawd (gweler Tabl 3). Y prif ffactor a gyfrannodd at y gostyngiad cyffredinol yn y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg yng Ngheredigion oedd y gostyngiad yn nifer y plant a phobl ifanc 3 i 15 oed (6.6 pwynt canran) a'r gostyngiad yn nifer y rhai 65+ oed (gan 6.5 pwynt canran).[18] [19] Fodd bynnag, er gwaethaf y gostyngiad cyffredinol yn niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg Ceredigion, yn gadarnhaol, cynyddodd cyfran yr oedolion (16 i 44 oed) 2.2 pwynt canran. Mae'r adran isod yn edrych ar y tueddiadau hyn yn fwy manwl.

**Tabl 3: Canran a niferoedd y siaradwyr Cymraeg 3 oed neu'n hŷn yng Ngheredigion yn ôl saith carfan oedran (2011 a 2021).**

| Grŵp oedran | 2011 | | 2021 | | Gwahaniaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | *Nifer* | *%* | *Nifer* | *%* | *Nifer* | *% Pwynt* |
| 3 i 4 | 814 | 58.3 | 598 | 52.2 | -216 | -6.0% |
| 5 i 15 | 6,361 | 82.0 | 5,525 | 74.9 | -836 | -7.1% |
| 16 i 19 | 2,399 | 40.9 | 1,937 | 46.9 | -462 | 6.0% |
| 20 i 44 | 9,620 | 41.7 | 8,585 | 43.1 | -1,035 | 1.4% |
| 45 i 64 | 8,484 | 42.3 | 7,697 | 40.6 | -787 | -1.7% |
| 65 i 74 | 3,633 | 43.2 | 3,715 | 37.4 | 82 | -5.8% |
| 75+ | 3,653 | 50.1 | 3,632 | 43.0 | -21 | -7.1% |
| Pob oed (3+) | **34,964** | **47.3** | **31,689** | **45.3** | **-3,275** | **-2.0%** |

*Ffynhonnell: SYG, Cyfrifiad 2011 – Tabl: DC2106Wala a Chyfrifiad 2021 – Tabl TS076.*

Drwy ddadansoddi'r canlyniadau ar draws y 7 carfan oedran, y grwpiau oedran 5 i 15 oed a 75+ a welodd y gostyngiad mwyaf mewn pwyntiau canran (7.1 pwynt canran). Roedd y gostyngiadau hyn yn fwy arwyddocaol na'r gostyngiad pwynt canran yn y ddwy garfan oedran yn genedlaethol (6.0 pwynt canran a 2.4 pwynt canran).


Bu gostyngiad sylweddol yng nghyfran y bobl 65 oed neu'n hŷn oedd yn gallu siarad Cymraeg yng Ngheredigion rhwng 2011 a 2021 (46.4% a 39.9%), gan arwain at 61 yn fwy o bobl 65 oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg yn 2021.

Mae'r gostyngiad yng nghyfran y preswylwyr 65 oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg a chynnydd bach yn nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y grŵp oedran (cynnydd o 61 o siaradwyr Cymraeg) yn cael ei esbonio'n rhannol gan y newidiadau demograffig a ddigwyddodd o fewn y grŵp oedran yn ystod yr un cyfnod. Dros y degawd, cynyddodd y boblogaeth breswyl arferol o bobl rhwng 65 a 74 oed gan 18.1% (1,524 o breswylwyr).[20] Roedd hyn ynghyd â chynnydd cymharol fach yn nifer y siaradwyr Cymraeg 65+ oed (61 o breswylwyr) yn golygu bod cyfran y rhai dros 65 oed sy'n gallu siarad Cymraeg wedi gostwng.

Fel yr adlewyrchir yn Ffigur 8, mae'r gostyngiad yng nghanran y preswylwyr 65 oed neu'n hŷn yng Ngheredigion yn barhad o'r duedd ar i lawr ers 2001. Mae'r gostyngiad yn cael ei esbonio'n rhannol gan

heneiddio naturiol ein poblogaeth sy'n siarad Cymraeg. Er enghraifft, mae'r gyfran is o siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oedran 65 i 74 a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011 (43.1%) bellach yn y grŵp oedran 75+ yn 2021, tra bod rhai o'r siaradwyr Cymraeg 75+ oed yn 2011 wedi marw erbyn hyn.


**Ffigur 8: Canran preswylwyr 65 oed neu'n hŷn Ceredigion sy'n gallu siarad Cymraeg yn ystod Cyfrifiadau 2001, 2011 a 2021.**




*Ffynhonnell: SYG, Cyfrifiad 2001, 2011 a 2021*[21]

Ar y llaw arall, mae'r gostyngiad yng nghanran y plant 3 i 15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg yng Ngheredigion yn duedd newydd (gweler Ffigur 9). Dros y degawd, bu gostyngiad o 6.6 pwynt canran yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg 5 i 15 oed, ond rhwng Cyfrifiad 2001 a 2011 cynyddodd cyfran y siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oedran hwn gan 1.2 pwynt canran (o 77.2% i 78.4 %).

**Ffigur 9: Canran preswylwyr Ceredigion rhwng 3 a 15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg a gofnodwyd yn ystod Cyfrifiadau 2001, 2011 a 2021**




*Ffynhonnell: SYG, Cyfrifiad 2001, 2011 a 2021*[22]


Ni chafodd y gostyngiad yng nghanran a nifer y plant a phobl ifanc yr adroddwyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg ei adlewyrchu yn y ganran gynyddol o blant oedd yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf yn y Sir yn ystod yr un cyfnod. Mae data o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn nodi bod canran a nifer y disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd (grwpiau blwyddyn ysgol 1-11) sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf wedi cynyddu ychydig dros yr un cyfnod, o 68.5% (neu 6,610 o ddisgyblion) yn 2011 i 70.6% (neu 5,457) yn 2021[23], sef cynnydd o 340 o ddisgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf.

Yn ogystal, nid yw'r gostyngiad yng nghanran y plant sy'n gallu siarad Cymraeg a gofnodwyd gan Gyfrifiad 2021 yn cael ei adlewyrchu yn y ganran gynyddol o ddisgyblion cynradd (grwpiau blwyddyn ysgol 1-6) mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod yr un cyfnod (2011-6). 2021). Yn ôl y CYBLD, yn ystod 2011-12 roedd 60.0% (3,306) o ddisgyblion cynradd mewn addysg cyfrwng Cymraeg o'i gymharu â 74.9% (3,251) o ddisgyblion cynradd yn 2021-22, sef cynnydd o 14.9 pwynt canran dros y degawd.[24]

Fodd bynnag, mae ymchwil gan Lywodraeth Cymru yn nodi nad yw tua hanner y plant sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf yn siarad Cymraeg gartref.[25] Felly, mae'n bosibl y gallai'r cyfnodau hir o gau ysgolion oherwydd pandemig COVID-19 (gyda'r plant ysgol yn cael llai o gysylltiad â'r Gymraeg) fod wedi effeithio ar eu gallu neu eu gallu canfyddedig yn y Gymraeg (gweler Adran 4.3 am ragor o wybodaeth).

Yn gadarnhaol, roedd cyfran yr oedolion ifanc a chanol oed (16 i 44 oed) a oedd yn gallu siarad Cymraeg yng Ngheredigion wedi cynyddu'n sylweddol rhwng blynyddoedd y cyfrifiad ac yn llawer uwch na'r cynnydd cyfartalog cenedlaethol o siaradwyr Cymraeg. Fel yr adlewyrchir yn Ffigur 10, mae'r cynnydd yn y gallu i siarad Cymraeg o fewn y grwpiau oedran hyn yn dueddiadau newydd. Mae dadansoddi'r grwpiau oedran ymhellach yn dangos mai cyfran y siaradwyr Cymraeg 16 i 19 oed a welodd y cynnydd mwyaf (6.0 pwynt canran) o 40.9 % yn 2011 i 46.9% yn 2021. Roedd canran y bobl 20 i 44 oed oedd yn gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu hefyd, er ar raddfa lai, o 41.7% yn 2011 i 44.0% yn 2021. Mae hyn yn awgrymu bod cynnydd yn cael ei wneud o ran cadw siaradwyr Cymraeg.

**Ffigur 10: Canran y bobl 16 i 44 oed sy'n gallu siarad Cymraeg yng Ngheredigion yn ôl Cyfrifiadau 2001, 2011 a 2021**





*Ffynhonnell: SYG, Cyfrifiad 2001, 2011 a 2021*[26]

Mae'r cynnydd yng nghyfran y bobl 16 i 44 oed sy'n siarad Cymraeg yng Ngheredigion ond y gostyngiad yn y niferoedd (colled o 1,500 o siaradwyr Cymraeg) yn cael ei esbonio'n rhannol gan y newidiadau demograffig a ddigwyddodd yn ystod yr un cyfnod. Ers Cyfrifiad 2011, bu gostyngiad o 17% yn y boblogaeth 16 i 44 oed yng Ngheredigion, sy'n cyfateb i ostyngiad o 4,905 o breswylwyr rhwng 16 a 44 oed.[27]

Nid yw'n syndod mai plant ac oedolion ifanc sy'n parhau i fod y grŵp oedran sydd fwyaf tebygol o siarad Cymraeg yng Ngheredigion (gweler Ffigur 11). Mae hyn yn adlewyrchu dylanwad cadarnhaol ein system addysg ar sgiliau ieithyddol plant ysgol. Ymddengys, fodd bynnag, fod proffil oedran oedolion sy'n gallu siarad Cymraeg yn newid. Yn 2021, pobl rhwng 20 a 44 oed oedd y grŵp oedran sydd fwyaf tebygol o siarad Cymraeg (43.1% neu 8,585 o breswylwyr); roedd hyn yn wahanol i 2011 pan oedd y ganran uchaf ar gyfer pobl 75 oed neu'n hŷn (50.1% neu 3,630 o breswylwyr).

Mae Ffigur 11 yn dangos, ar 21 Mawrth 2021, mai pobl 33 oed a 37 oed (52%) oedd fwyaf tebygol o siarad Cymraeg yn y grŵp oedran oedolion, tra bod pobl 58 oed yn llai tebygol o siarad Cymraeg (35%). Mae'r cynnydd yng nghanran y siaradwyr Cymraeg 31-38 oed yn cynyddu o degawd i degawd. Er enghraifft, mae'r 40% o bobl 23 oed oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2011 wedi cynyddu i 52% ar gyfer pobl 33 oed yn 2021. Gallai hyn fod oherwydd sawl ffactor, megis myfyrwyr di-Gymraeg yn symud adref ar ôl iddynt gymhwyso o'r brifysgol, neu gynnydd yn nifer y dysgwyr Cymraeg o fewn y grŵp oedran hwn.

**Ffigur 11: Canran y bobl tair oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg yng Ngheredigion, yn ôl blwyddyn oedran sengl, Cyfrifiad 2011 a 2021**




*Ffynhonnell: SYG – Cyfrifiad 2011, Tabl: DC2106WALA a Chyfrifiad 2021, Tabl TS076*[28] [29]


Mae'r gostyngiad sydyn yng nghanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 18-20 oed yng Ngheredigion yng Nghyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2021 a adlewyrchir yn Ffigur 11 yn cael ei esbonio'n rhannol gan ein poblogaeth uchel o fyfyrwyr yn y Sir, sy'n cyfateb i bron 12% o gyfanswm ein poblogaeth breswyl.[30] Bydd rhai myfyrwyr wedi symud o rannau eraill o Gymru ac felly efallai'n siarad Cymraeg; fodd bynnag, mae eraill wedi symud o'r DU ac ymhellach i ffwrdd, ac felly efallai nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg. Eglurir y gostyngiad hwn yn rhannol hefyd gan y duedd i golli sgiliau siarad Cymraeg ar ôl oedran statudol (3-16 oed).[31]

## 3.3 Y sefyllfa yn lleol

Mae'r sefyllfa ieithyddol yn amrywio o un ardal i'r llall a gellir ei chysylltu â gwahanol ffactorau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol yr ardal. Er enghraifft, canfu ymchwil gan Lywodraeth Cymru fod perthynas rhwng y gallu i siarad Cymraeg a rhyw, grŵp oedran, cyrhaeddiad addysgol, dosbarthiad tir ac ymdeimlad o berthyn.[32]

Mae'r Cyfrifiad yn casglu data mewn ardaloedd daearyddol llai, megis Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI). Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn ardaloedd cymharol fach ac mae ganddynt gyfartaledd o 1,500 o bobl neu 650 o aelwydydd. Mae Ceredigion yn cynnwys 45 ACEHI. Newidiodd rhai o ffiniau'r ACEHI yn 2021, a lle mae'r newidiadau hyn wedi digwydd nid yw'n bosibl gwneud cymariaethau â data Cyfrifiad 2011 (i gael rhagor o wybodaeth am y newidiadau hyn cyfeiriwch at Atodiad 3).

**Ffigur 12: Canran y siaradwyr Cymraeg tair oed neu'n hŷn yn ôl ACEHI – Cyfrifiad 2021**




*Ffynhonnell: SYG – Cyfrifiad 2021, Sgiliau Cymraeg yn ôl ACEHI, Tabl TS033.*

Mae Ffigur 12 yn dangos bod yr ardaloedd sydd â'r cyfrannau isaf o siaradwyr Cymraeg wedi'u lleoli yn Nhref Aberystwyth, ac nid yw hynny'n syndod o ystyried y boblogaeth fawr o fyfyrwyr. Y tu allan i Aberystwyth, nododd pob ACEHI o fewn y Sir allu i siarad Cymraeg o 41% ac uwch. ACEHI Aberaeron sydd â'r ganran uchaf o'r boblogaeth tair oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg (59.0%). Roedd hyn yn wahanol i 2011; y pryd hynny Tregaron oedd â'r ganran uchaf, sef 66.9%. Mae gan Benglais 1 y ganran isaf o'r boblogaeth tair oed neu'n hŷn a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg (19.7%). Fodd bynnag, dylid nodi bod mae canran y siaradwyr Cymraeg sy'n byw ym Mhenglais 1 yn dal yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (17.8%).

Mae Tabl 4 yn dangos yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is lle ceir y canrannau uchaf ac isaf o siaradwyr Cymraeg yn y Sir.

**Tabl 4: Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is lle ceir y canrannau uchaf ac isaf o siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion ar 21 Mawrth 2021 (Diwrnod y Cyfrifiad)**

| Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) | % o siaradwyr Cymraeg |
|---|---|
| **Canran uchaf o siaradwyr Cymraeg (%)** | |
| Aberaeron | 59.0 |
| Tregaron | 58.7 |
| Ystwyth | 57.2 |
| Tref Llandysul | 56.9 |
| Pen-parc 2 | 55.4 |
| **Canran isaf o siaradwyr Cymraeg (%)** | |
| Gogledd Llanbadarn Fawr | 28.0 |
| Canol Aberystwyth | 24.8 |
| Aberystwyth Rheidol 1 | 22.5 |
| Penglais 2 | 21.8 |
| Penglais 1 | 19.7 |

*Ffynhonnell: SYG – Cyfrifiad 2021, Tabl TS033 – Sgiliau Cymraeg (siarad).*[33]

Yn gyffredinol, mae canrannau'r bobl sy'n nodi eu bod yn siarad Cymraeg ar draws y Sir wedi gostwng ers Cyfrifiad 2011. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn ACEHI Aberteifi – Rhyd-y-Fuwch, gyda gostyngiad o 8.4 pwynt canran, ac yna ACEHI Tregaron, gyda gostyngiad o 8.2 pwynt canran.

Fodd bynnag, mewn wyth o'r 45 ACEHI cynyddodd cyfran y siaradwyr Cymraeg. Roedd y cynnydd mwyaf yng nghanran y preswylwyr a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn ACEHI Llanbedr Pont Steffan 1 (cynnydd o 7.9 pwynt canran), ac yna Aberystwyth Bronglais (cynnydd o 7.0 pwynt canran).

Nid yw'n bosibl cymharu'r canlyniadau rhwng 2011 a 2021 mewn tair o'r ACEHI oherwydd newidiadau i'r ffiniau, yr ACEHI Ceinewydd, Llanarth a Llandysilio, ACEHI Penglais 1 ac ACEHI Penglais 2. Mae rhagor o wybodaeth am hyn i'w gweld yn yr ymwadiad (gweler Atodiad 3).

Mae tablau sy'n nodi canrannau a niferoedd y siaradwyr Cymraeg ar gyfer pob ACEHI i'w gweld yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

Cyhoeddodd Cyfrifiad 2021 ddata hefyd ar y gallu i siarad Cymraeg ar lefel ward. Yn ôl data Cyfrifiad 2021, Ward Ystwyth oedd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg gyda 57.2% o'r boblogaeth tair oed neu'n hŷn yn nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Roedd Aberaeron ac Aber-arth yn dilyn gyda 56.3% o'r boblogaeth tair oed neu'n hŷn yn gallu siarad Cymraeg.

Ward Rheidol Aberystwyth oedd â'r ganran isaf o siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion (27.6%), gyda Ward Faenor â'r ganran isaf ond un ar 27.7%. Mae'n ymddangos bod y 5 ward sydd â’r ganran isaf o siaradwyr Cymraeg i gyd wedi'u lleoli yn Nhref Aberystwyth neu'r cyffiniau.

**Tabl 5: Wardiau Etholiadol lle mae'r canrannau uchaf ac isaf o siaradwyr Cymraeg i'w cael yng Ngheredigion ar 21 Mawrth 2021 (Diwrnod y Cyfrifiad)**

| Ward Etholiadol | % o siaradwyr Cymraeg |
|---|---|
| **Canran uchaf o siaradwyr Cymraeg (%)** | |
| Ystwyth | 57.2 |
| Aberaeron ac Aber-arth | 56.3 |
| Tregaron ac Ystrad Fflur | 56.1 |
| Mwldan | 54.8 |
| Llanfarian | 53.2 |
| **Canran isaf o siaradwyr Cymraeg (%)** | |
| Llanbadarn Fawr | 33.8 |
| Aberystwyth Penparcau | 32.3 |
| Morfa a Glais Aberystwyth | 29.5 |
| Faenor | 27.7 |
| Aberystwyth Rheidol | 27.6 |

Ffynhonnell: SYG – Cyfrifiad 2021, Tabl TS033 – Sgiliau Cymraeg (siarad).[34]

Ers Cyfrifiad 2011 mae nifer o ffiniau wardiau etholiadol Ceredigion wedi newid ac felly nid oes modd cymharu'r holl ddata rhwng y cyfrifiadau. Yn ystod Cyfrifiad 2011 roedd 40 o wardiau, ond yn 2021 newidiodd hyn i 34 o wardiau, gyda rhai wardiau yn uno ac eraill yn rhannu. I gael rhagor o wybodaeth am newidiadau i ffiniau wardiau, cyfeiriwch at Atodiad 4.

Lle mae'n bosibl gwneud cymariaethau, gallwn weld mai Ward Llangeitho sydd wedi gweld y gostyngiad mwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg o 54.9% yn 2011 i 47.4% erbyn 2021, sy'n ostyngiad o 7.5 pwynt canran. Dilynir hyn gan Ward Llanwenog sydd wedi gostwng gan 6.5 pwynt canran o 59.2% yn 2011 i 52.7% erbyn 2021.

Ar y pegwn arall, dim ond dwy o'r wardiau etholiadol cymaradwy a welodd gynnydd yn y ganran o siaradwyr Cymraeg rhwng 2011 a 2021. Ward Llanbedr Pont Steffan sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf yn y ganran o siaradwyr Cymraeg tair oed neu'n hŷn ers 2011, cynnydd o 1.9 pwynt canran o 46.9% yn 2011 i 48.8% erbyn 2021. Dilynwyd hyn gan Y Borth a welodd gynnydd o 1.4 pwynt canran yng nghanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 2011 a 2021.

Mae tablau yn nodi sgiliau siarad Cymraeg yn seiliedig ar niferoedd a chanrannau ar gyfer pob Ward Etholiadol i'w gweld yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn.

## 3.4 Sgiliau Cymraeg

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Cyfrifiad yn casglu gwybodaeth am amrywiadau eraill o sgiliau Cymraeg, gan gynnwys ysgrifennu, darllen, a deall Cymraeg. Eto, mae'n werth nodi bod yr ystadegau sgiliau Cymraeg yn seiliedig ar ganfyddiad yr unigolyn o'i sgiliau ei hun. Fodd bynnag, mae Cyfrifiad 2021 yn rhoi trosolwg o'r ystod o sgiliau Cymraeg sydd i'w cael yng Ngheredigion (gweler Tabl 6 isod).

**Tabl 6: Ystod o sgiliau Cymraeg Ceredigion 2011-2021**

| Sgiliau Cymraeg | 2011 | 2021 |
|---|---|---|
| Yn siarad Cymraeg | 47.3% (34,960) | 45.3% (31,680) |
| Yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig | 8.1% (6,020) | 8.5% (5,950) |
| Yn gallu siarad Cymraeg, darllen Cymraeg ac ysgrifennu yn Gymraeg | 38.8% (28,630) | 37.3% (26,100) |
| Yn gallu siarad Cymraeg ond ddim yn gallu darllen Cymraeg nac ysgrifennu yn Gymraeg | 4.9% (3,630) | 4.9% (3,410) |
| Yn gallu siarad Cymraeg a darllen Cymraeg ond ddim yn gallu ysgrifennu yn Gymraeg | 3.4% (2,530) | 2.6% (1,810) |
| Dim sgiliau Cymraeg | 42.4% (31,290) | 43.6% (30,480) |

*Ffynhonnell: SYG – Cyfrifiad 2011 a 2021, Sgiliau Cymraeg (manwl)*[35]

Ers Cyfrifiad 2011 bu newid yn y canrannau a nodwyd yng nghyd-destun sgiliau Cymraeg. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf o blith y sgiliau Cymraeg eraill yng nghanran y bobl tair oed neu'n hŷn oedd yn "gallu siarad Cymraeg, darllen Cymraeg ac ysgrifennu yn Gymraeg", gyda gostyngiad o 1.0 pwynt canran o 38.3% i 37.3%. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu 2,535 yn llai o bobl, fodd bynnag, mae'n ostyngiad llai nag a welwyd ar gyfer canran a nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Ar yr un pryd, cynyddodd y ganran a ddywedodd eu bod yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig o 8.1% (6,020) yn 2011 i 8.5% (5,950) yn 2021, cynnydd o 0.4 pwynt canran. Mae'n anodd canfod beth sydd y tu ôl i'r tueddiadau hyn, fodd bynnag, mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd cynnal a chynyddu rhuglder a hyder unigolion yn eu sgiliau iaith, yn enwedig sgiliau siarad Cymraeg.

# 4.0 Ffactorau sy'n cyfrannu at broffil Cymraeg Ceredigion

Er mwyn deall yn iawn y ffactorau sy'n llywio'r gostyngiad cyffredinol yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion a'r newid ymhlith carfannau oedran, mae angen rhagor o ddata o Gyfrifiad 2021 (e.e. y data amlamryweb i'w cyhoeddi yn 2023 a 2024). Bydd y data hwn yn cynorthwyo ein dealltwriaeth o allu yn y Gymraeg mewn sawl maes sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gyfraddau trosglwyddo iaith o fewn cartrefi, gallu i siarad Cymraeg o fewn y gweithlu a sefyllfa ieithyddol Ceredigion y tu allan i'r tymor coleg. Fodd bynnag, mae rhai ffactorau posibl yn cael eu hystyried isod. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys newidiadau demograffig, mudo, newidiadau i hunaniaeth genedlaethol a phandemig COVID-19.

## 4.1 Symudedd poblogaeth

Mae symudedd poblogaeth wedi bod yn ffactor amlwg yn nemograffeg Ceredigion ers degawdau lawer. Mae gan Geredigion symudedd poblogaeth gymharol uchel, yn rhannol oherwydd y ddwy

Brifysgol sefydledig yn y Sir sy'n denu miloedd o fyfyrwyr i Geredigion bob blwyddyn (oddeutu rhwng 6,500-8,050 o fyfyrwyr).[36 37]

**Tabl 7: Gwlad Enedigol poblogaeth Ceredigion 2011-2021**

| | Ganwyd yng Nghymru | Ganwyd yn Lloegr | Ganwyd rhywle arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **2021** | 54.4% (38,890) | 37.3% (26,670) | 8.3% (5,930) | 71,500 |
| **2011** | 55.3% (42,010) | 37.4% (28,390) | 7.3% (5,530) | 75,900 |

**Efallai na fydd y ffigurau'n adio'n union oherwydd talgrynnu.*
*Ffynhonnell: SYG – Cyfrifiad 2011: Tabl KS204EW; Cyfrifiad 2021: Tabl TS012*[38 39]

Yn debyg i Gyfrifiad 2011, roedd cyfran sylweddol o boblogaeth y Sir yn 2021 wedi'u geni y tu allan i Gymru. Mae Tabl 7 yn dangos sut mae poblogaeth Ceredigion wedi newid o ran gwlad enedigol dros y degawd diwethaf. Yn 2021, roedd canran preswylwyr y Sir a gafodd eu geni yng Nghymru wedi gostwng ychydig o 55.3% yn 2011 i 54.4% yn 2021, sy'n cyfateb i ostyngiad o 3,110 o breswylwyr (-0.9 pwynt canran). Ar yr un pryd, roedd canran preswylwyr y Sir a gafodd eu geni y tu allan i Gymru a Lloegr wedi cynyddu 1.0 pwynt canran (+400 o breswylwyr). Fodd bynnag, mae canran preswylwyr Ceredigion a gafodd eu geni yn Lloegr wedi aros yn weddol sefydlog. Roedd hyn yn wahanol i'r cyfnod 2001 a 2011 pan gynyddodd cyfran y preswylwyr a gafodd eu geni yn Lloegr (o 1.0 pwynt canran/ +1,090).[40 41] Bydd datganiadau pellach o'r Cyfrifiad yn cynnig modd i ni ddadansoddi'r berthynas rhwng gwlad enedigol a gallu poblogaeth Ceredigion i siarad Cymraeg yn 2021.


Yn anecdotaidd, credir bod nifer o'n preswylwyr iau, Cymraeg eu hiaith, yn symud o Geredigion i Gaerdydd i chwilio am addysg bellach, cyflogaeth a chyfleoedd cymdeithasol. Er enghraifft, yn ôl HESA, mae tua 260-300 o fyfyrwyr yn symud o Geredigion i astudio ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd bob blwyddyn.[42] Mae'n debygol bod gan y garfan hon rywfaint o allu i siarad Cymraeg. Er y bydd llawer yn aros yn y ddinas, deellir bod rhai yn dychwelyd i Geredigion i geisio bywyd llai trefol a/neu efallai eu bod am ddechrau teulu. Yn y dyfodol, mae'n bosibl y bydd llifoedd mudo rhwng Caerdydd a Cheredigion yn newid wrth i weithio o bell ddod yn fwy cyffredin, sy'n golygu y gall preswylwyr fyw yng Ngheredigion a gweithio yn rhywle arall erbyn hyn. Bydd yn ddiddorol gweld pa dueddiadau sy'n ymddangos yn y data tarddiad-cyrchfan (llif) pan gânt eu cyhoeddi, a fydd yn dangos patrymau mudo cenedlaethol a rhyngwladol preswylwyr Ceredigion yn ystod y flwyddyn cyn Diwrnod y Cyfrifiad.

## 4.2 Hunaniaeth Genedlaethol

O ran hunaniaeth genedlaethol, yn 2021, disgrifiodd 46.6% (33,360) o'r boblogaeth eu hunain fel Cymreig yn unig. Fel yr adlewyrchir yn Ffigur 13 isod, roedd hyn yn debyg iawn i Gyfrifiad 2011 (cynnydd o 0.1 pwynt canran ers 2011). Cymreig yn unig yw'r hunaniaeth genedlaethol fwyaf yng Ngheredigion o

hyd, tra bod ychydig llai na chwarter y boblogaeth (21.7%/15,500) yn nodi eu bod yn Brydeinig yn unig, ac yna 14.6% (10,430) yn Seisnig yn unig.

**Ffigur 13: Canran preswylwyr Ceredigion sy'n nodi hunaniaeth "Cymreig yn unig" yng Nghyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2021**




*Ffynhonnell: SYG, Cyfrifiad 2011 – Tabl: QS214EW[43]; Cyfrifiad 2021 – Tabl: TS028*

Yn y categori hunaniaeth Prydeinig yn unig y gwelwyd y cynnydd mwyaf (cynnydd o 1.8 pwynt canran). Fodd bynnag, mae'r cynnydd hwn yn llawer is na'r cynnydd ar draws Cymru a Lloegr (cynnydd o 26 pwynt canran, o 23% yn 2011 i 49% yn 2021). Gall y cynnydd bach yng Ngheredigion gael ei esbonio'n rhannol gan duedd genedlaethol fwy cyffredinol (Cymru a Lloegr) o newid hunaniaeth genedlaethol ar ôl Brexit. Ymddengys, felly, fod hunaniaeth genedlaethol preswylwyr y Sir yn gryfach na'u hunaniaeth fel dinasyddion y wladwriaeth Brydeinig.

## 4.3 Pandemig COVID-19

Cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 yn ystod pandemig COVID-19, a effeithiodd ar y boblogaeth mewn amryw o ffyrdd. Er enghraifft, roedd Diwrnod y Cyfrifiad yn dilyn cyfnodau o gyfyngiadau symud, plant yn dysgu o gartref a chau llawer o gyfleusterau gofal plant (gan gynnwys cyfleusterau gofal plant cyfrwng Cymraeg). Er ei fod yn anodd ei fesur, gall y pandemig fod wedi effeithio ar yr hyn a nodwyd gan ddisgyblion am eu gallu yn y Gymraeg (neu ar y canfyddiad o allu pobl eraill yn y Gymraeg). Nid yw unrhyw waith ymchwil penodol wedi cael ei wneud ar effaith COVID-19 ar ddwyieithrwydd disgyblion Ceredigion, fodd bynnag, cafodd cau ysgolion effaith sylweddol ar nifer y cyfleoedd i blant ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. Canfu ymchwil a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru[44] fod plant nad oeddent mewn cysylltiad rheolaidd â'r Gymraeg (e.e. rhieni neu frodyr a chwiorydd heb fod yn siaradwyr Cymraeg) yn cael eu heffeithio gan y pandemig, ac y byddai angen cymorth pellach arnynt i ailgydio yn y Gymraeg.

Mae'n bosibl bod pandemig COVID-19 hefyd wedi cael effaith negyddol ar hunanasesiad disgybl o'i allu yn yr iaith ar Ddiwrnod y Cyfrifiad. Gan fod y cyfrifiad yn seiliedig ar hunanasesiad rhywun o'i allu, mae'r

cwestiwn sy'n ymwneud â sgiliau Cymraeg yn oddrychol. Canfu astudiaeth a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru[45] fod y cyfnodau hir o heb fod yng nghwmni athrawon a chyfoedion Cymraeg eu hiaith yn debygol o fod wedi cael effaith negyddol ar hyder a rhuglder ieithyddol plant. Felly, mae'n bosibl bod y diffyg cysylltiad â'r Gymraeg hefyd wedi effeithio ar ganfyddiad disgyblion a/neu rieni di-Gymraeg (a allai fod wedi llenwi'r ffurflen cyfrifiad ar ran eu plentyn) o'u sgiliau Cymraeg.

Gellir priodoli'r gostyngiad mewn siaradwyr Cymraeg ymhlith plant oedran ysgol hefyd i ffactorau eraill y tu hwnt i bandemig COVID-19. Yn genedlaethol, Ceredigion oedd â'r gostyngiad mwyaf yng nghanran y plant rhwng 2011 a 2021, sef gostyngiad o 10.1% yn nifer y plant 15 oed neu'n iau dros y degawd.[46] [47] Ar yr un pryd, mae canran y preswylwyr heb eu geni yn y DU, a'r di-Gymraeg wedi cynyddu o fewn y Sir.[48] Felly, mae'n debygol bod y ffactorau hyn wedi cyfrannu at wanhau'r boblogaeth plant oedran ysgol sy'n siarad Cymraeg. Unwaith y bydd wedi'i gyhoeddi, bydd yn ddiddorol gweld canran y plant tair i bedair oed sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl cyfansoddiad y cartref a rhieni sy'n siarad Cymraeg, gan y bydd hyn yn rhoi syniad o'r trosglwyddiad iaith o fewn Ceredigion ers Cyfrifiad 2011.

# 5.0 Casgliad

Ar y cychwyn cyntaf, mae'r gostyngiad cyffredinol yn niferoedd a chanrannau'r siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion yn siomedig. Fodd bynnag, mae'r proffil uchod yn dangos nad yw'r gostyngiad mor glir ag a dybiwyd yn wreiddiol. Er y bu cwymp yn nifer y siaradwyr Cymraeg ymhlith y carfannau oedran iau a hŷn, bu cynnydd yng nghanrannau siaradwyr Cymraeg 16-44 oed. Mae hon yn duedd newydd, gadarnhaol, sy'n awgrymu bod cynnydd yn cael ei wneud o ran cadw siaradwyr Cymraeg. Er ei fod yn galonogol gweld cynnydd yng nghanran yr oedolion ifanc sy'n nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg, mae'n destun pryder mawr gweld gostyngiad yn nifer a chanran y plant, yn enwedig oherwydd y buddsoddiad sylweddol a fu yn y sector addysg sydd wedi cynyddu'r darpariaeth o ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws y Sir.

Mae'n bwysig nodi mai dim ond ers pedair blynedd y bu Cymraeg 2050 ar waith ar ddiwrnod cyfrifo'r Cyfrifiad, a bod pandemig COVID-19 wedi effeithio ar dipyn o'r cyfnod hwnnw. Felly, erys rhesymau da dros fod yn obeithiol ynghylch cyrraedd y targed cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Wrth i ddata pellach ar y Gymraeg gael ei ryddhau o Gyfrifiad 2021, ceir gwell dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n llywio'r dirywiad cyffredinol a'r gwahaniaethau mewn grwpiau oedran yng Ngheredigion. Bydd y dystiolaeth hon yn gymorth wrth ddod i gasgliadau o ran blaenoriaethau ar gyfer cynllunio ieithyddol yn y Sir.

# Atodiad 1

## Siaradwyr Cymraeg Ceredigion yn ôl ACEHI – canrannau a niferoedd

| Cod ACEHI | Enw ACEHI | Cyfrifiad 2011 (%) | Cyfrifiad 2021 (%) | Gwahaniaeth pwynt canran | Nifer 2011 | Nifer 2021 | Gwahaniaeth (nifer) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| W01000506 | Aberaeron | 59.9 | 59 | -0.9 | 832 | 738 | -94 |
| W01000507 | Aber-porth 1 | 43.6 | 45.9 | 2.3 | 506 | 510 | +4 |
| W01000508 | Aber-porth 2 | 45.2 | 45.3 | 0.1 | 512 | 457 | -55 |
| W01000509 | Aberteifi/Cardigan – Mwldan | 58.8 | 54.8 | -4 | 1,012 | 997 | -15 |
| W01000510 | Aberteifi/Cardigan – Rhyd-y-Fuwch | 55.8 | 47.3 | -8.5 | 658 | 544 | -114 |
| W01000511 | Aberteifi/Cardigan – Teifi | 46.9 | 41.4 | -5.5 | 524 | 470 | -54 |
| W01000512 | Aberystwyth Bronglais | 36.5 | 43.5 | 7 | 745 | 584 | -161 |
| W01000513 | Aberystwyth Canol/Canolog | 26.6 | 24.8 | -1.8 | 652 | 517 | -135 |
| W01000515 | Aberystwyth Penparcau 1 | 37.2 | 32.8 | -4.4 | 517 | 418 | -99 |
| W01000516 | Aberystwyth Penparcau 2 | 35.8 | 31.9 | -3.9 | 578 | 504 | -74 |
| W01000517 | Aberystwyth Rheidol 1 | 27.3 | 22.5 | -4.8 | 398 | 260 | -138 |
| W01000518 | Aberystwyth Rheidol 2 | 34.2 | 33.5 | -0.7 | 421 | 332 | -89 |
| W01000519 | Beulah | 52.9 | 50.3 | -2.6 | 841 | 866 | +25 |
| W01000522 | Capel Dewi | 50.7 | 46.9 | -3.8 | 642 | 554 | -88 |
| W01000523 | Ceulanamaesmawr | 52.9 | 52.3 | -0.6 | 977 | 961 | -16 |
| W01000524 | Ciliau Aeron | 54 | 52.1 | -1.9 | 1,040 | 978 | -62 |
| W01000525 | Faenor 1 | 46.5 | 46.7 | 0.2 | 551 | 564 | +13 |
| W01000527 | Llanbedr Pont Steffan 1 | 36.5 | 44.4 | 7.9 | 538 | 502 | -36 |
| W01000528 | Llanbedr Pont Steffan 2 | 57.8 | 52.6 | -5.2 | 808 | 690 | -118 |
| W01000531 | Llandyfriog | 54.7 | 50 | -4.7 | 970 | 860 | -110 |
| W01000533 | Tref Llandysul | 63.5 | 56.9 | -6.6 | 888 | 747 | -141 |
| W01000534 | Llanfarian | 54 | 53.2 | -0.8 | 792 | 790 | -2 |
| W01000535 | Llanfihangel Ystrad | 56.9 | 52.8 | -4.1 | 1,123 | 1,053 | -70 |
| W01000536 | Llangeitho | 54.9 | 47.4 | -7.5 | 777 | 633 | -144 |
| W01000537 | Llangybi | 49 | 43.9 | -5.1 | 713 | 599 | -114 |
| W01000538 | Llanrhystyd | 57.7 | 52.5 | -5.2 | 871 | 791 | -80 |
| W01000539 | Llansantffraed 1 | 50 | 46.5 | -3.5 | 598 | 536 | -62 |
| W01000540 | Llansantffraed 2 | 53.3 | 49.5 | -3.8 | 600 | 553 | -47 |
| W01000541 | Llanwenog | 59.2 | 52.7 | -6.5 | 1,058 | 893 | -165 |
| W01000542 | Lledrod | 54.3 | 50.2 | -4.1 | 1,166 | 1,081 | -85 |
| W01000543 | Melindwr | 49.4 | 49.2 | -0.2 | 967 | 964 | -3 |
| W01000545 | Penbryn | 48.5 | 45.4 | -3.1 | 971 | 882 | -89 |
| W01000546 | Pen-parc 1 | 49.3 | 45.5 | -3.8 | 544 | 507 | -37 |
| W01000547 | Pen-parc 2 | 60.4 | 55.4 | -5 | 700 | 621 | -79 |
| W01000548 | Tirymynach | 54.8 | 52.1 | -2.7 | 1,006 | 899 | -107 |
| W01000549 | Trefeurig | 56.5 | 52.8 | -3.7 | 967 | 906 | -61 |
| W01000550 | Tregaron | 66.9 | 58.7 | -8.2 | 785 | 663 | -122 |
| W01000551 | Troedyraur | 50.9 | 49.9 | -1 | 647 | 671 | +24 |
| W01000552 | Ystwyth | 58.3 | 57.2 | -1.1 | 1,175 | 1,118 | -57 |
| W01001935 | De Llanbadarn Fawr | 39.2 | 42.1 | 2.9 | 413 | 423 | +10 |
| W01001936 | Gogledd Llanbadarn Fawr | 24.4 | 28 | 3.6 | 550 | 401 | -149 |
| W01001937 | Y Borth | 40.6 | 42 | 1.4 | 823 | 804 | -19 |
| W01002000 | Penglais 2 | Amh | 21.8 | *Amh | *Amh | 630 | *Amh |
| W01002001 | Penglais 1 | Amh | 19.7 | *Amh | *Amh | 277 | *Amh |
| W01002002 | Ceinewydd, Llanarth & Llandysilio | Amh | 45.6 | *Amh | *Amh | 1,928 | *Amh |

***Amh: Data ddim ar gael ac nid oes modd cymharu oherwydd newid ffiniau ACEHI, cyfeiriwch at Atodiad 3 am ymwadiad llawn**

# Atodiad 2
# Siaradwyr Cymraeg Ceredigion yn ôl wardiau etholiadol – canrannau a niferoedd

| Cod Ward | Enw'r Ward | Cyfrifiad 2011 (%) | Cyfrifiad 2021 (%) | Gwahan-iaeth pwynt canran | 2011 (nifer) | 2021 (nifer) | Gwahan-iaeth (nifer) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| W05001298 | Aberaeron ac Aber-arth | Amh | 56.3 | ** Amh | ** Amh | 974 | ** Amh |
| W05001299 | Aber-porth a'r Ferwig | Amh | 49.0 | ** Amh | ** Amh | 1,589 | ** Amh |
| W05001300 | Aberystwyth Morfa a Glais | Amh | 29.5 | ** Amh | ** Amh | 1,623 | ** Amh |
| W05001301 | Aberystwyth Penparcau | 36.4 | 32.3 | -4.1 | 1,095 | 922 | -173 |
| W05001302 | Aberystwyth Rheidol | 30.5 | 27.6 | -2.9 | 819 | 592 | -227 |
| W05001303 | Beulah a Llangoedmor | Amh | 48.4 | ** Amh | ** Amh | 1,373 | ** Amh |
| W05001304 | Y Borth | 40.6 | 42.0 | +1.4 | 823 | 804 | -19 |
| W05001305 | Ceulan a Maesmawr | 52.9 | 52.3 | -0.6 | 977 | 961 | -16 |
| W05001306 | Ciliau Aeron | 54 | 52.1 | -1.9 | 1,040 | 978 | -62 |
| W05001307 | Faenor | 32.9 | 27.7 | -5.2 | 823 | 951 | +128 |
| W05001308 | Llanbedr Pont Steffan | 46.9 | 48.8 | +1.9 | 1,346 | 1,192 | -154 |
| W05001310 | Llanbadarn Fawr | Amh | 33.8 | ** Amh | ** Amh | 824 | ** Amh |
| W05001311 | Llandyfriog | Amh | 50.0 | ** Amh | ** Amh | 860 | ** Amh |
| W05001312 | Llandysilio a Llangrannog | Amh | 47.7 | ** Amh | ** Amh | 813 | ** Amh |
| W05001313 | Gogledd Llandysul a Throedyraur | Amh | 49.9 | ** Amh | ** Amh | 1,030 | ** Amh |
| W05001314 | De Llandysul | Amh | 53.1 | ** Amh | ** Amh | 942 | ** Amh |
| W05001315 | Llanfarian | 54 | 53.2 | -0.8 | 792 | 790 | -2 |
| W05001316 | Llanfihangel Ystrad | Amh | 52.8 | ** Amh | ** Amh | 1,053 | |
| W05001317 | Llangeitho | 54.9 | 47.4 | -7.5 | 777 | 633 | -144 |
| W05001318 | Llangybi | 49 | 43.9 | -5.1 | 713 | 599 | -114 |
| W05001309 | Llanarth | 50.7 | 48.1 | -2.6 | 785 | 732 | -53 |
| W05001319 | Llanrhystyd | 57.7 | 52.5 | -5.2 | 871 | 791 | -80 |
| W05001320 | Llansanffraid | 51.6 | 47.7 | -3.9 | 1,198 | 853 | -345 |
| W05001321 | Llanwenog | 59.2 | 52.7 | -6.5 | 1,058 | 893 | -165 |
| W05001322 | Lledrod | 54.3 | 49.5 | -4.8 | 1,166 | 722 | -444 |
| W05001323 | Melindwr | 49.4 | 49.2 | -0.2 | 967 | 964 | -3 |
| W05001324 | Mwldan | Amh | 54.8 | ** Amh | ** Amh | 997 | ** Amh |
| W05001325 | Ceinewydd a Llanllwchaearn | Amh | 40.9 | ** Amh | ** Amh | 693 | ** Amh |
| W05001326 | Penbryn | 48.5 | 45.7 | -2.8 | 971 | 572 | -399 |
| W05001327 | Teifi | | 44.4 | ** Amh | ** Amh | 1,014 | ** Amh |
| W05001328 | Tirymynach | 54.8 | 52.1 | -2.7 | 1,006 | 899 | -107 |
| W05001329 | Trefeurig | 56.5 | 52.8 | -3.7 | 967 | 906 | -61 |
| W05001330 | Tregaron ac Ystrad Fflur | Amh | 56.1 | ** Amh | ** Amh | 1,022 | ** Amh |
| W05001331 | Ystwyth | 58.3 | 57.2 | -1.1 | 1,175 | 1,118 | -57 |

****Amh: Data ddim ar gael ac nid oes modd cymharu oherwydd newid ffiniau, cyfeiriwch at Atodiad 4 am ymwadiad llawn.**


## Atodiad 3
## Ymwadiad newid ffiniau ACEHI (Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is)

Dylid nodi bod SYG wedi cyhoeddi nifer o newidiadau ffiniau ers y Cyfrifiad diwethaf yn 2011. Mae hyn yn golygu bod gan Geredigion gyfres newydd o ffiniau ACEHI yn 2021. Er nad oes nifer fawr o newidiadau, mae'n hynod bwysig nodi y bydd yn anodd cymharu data rhwng 2011 a 2021 lle mae ffiniau ACEHI wedi newid.

Yn 2011 roedd 47 ACEHI yng Ngheredigion. Mae ffiniau ACEHI newydd yn 2021 yn cynnwys 45 ACEHI. Bu newidiadau i 4 o ACEHI 2011.
Mae Ceinewydd (W01000544), Llanarth (W01000529) a Llandysiliogogo (W01000532) wedi uno i greu 1 ACEHI. Bydd yr ACEHI newydd hon yn cael ei hadnabod fel Ceinewydd, Llanarth a Llandysilio (W01002002).

Mae Aberystwyth Penglais (W01001934) wedi'i rhannu'n 2 ACEHI. Nid yw'r SYG yn darparu enwau newydd ar gyfer yr ACEHI newydd felly rydym wedi eu henwi ein hunain. W01002001 yw Penglais 1 a W01002000 yw Penglais 2.

Mae'r map isod yn dangos y newidiadau ffiniau ACEHI rhwng 2011 a 2021.




Mae'r blwch o'r enw "1." yn dangos lle mae Ceinewydd (W01000544), Llanarth (W01000529) a Llandysiliogogo wedi uno i greu 1 ACEHI. Mae'r blwch o'r enw "2." yn dangos lle mae Penglais (W01001934) wedi rhannu'n 2 ACEHI

## Atodiad 4
## Ymwadiad newid ffin ward etholiadol.

Dylid nodi ers y Cyfrifiad diwethaf yn 2011 bod Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wedi cyhoeddi nifer o newidiadau ffiniau. Mae hyn wedi arwain at gyfres newydd o ffiniau Wardiau Etholiadol ar gyfer Ceredigion yn 2021. Mae'n bwysig nodi y bydd yn anodd cymharu data rhwng 2011 a 2021 lle mae ffiniau Wardiau Etholiadol wedi newid.

Yn 2011 roedd 40 o Wardiau Etholiadol yng Ngheredigion. Mae ffiniau newydd y Wardiau Etholiadol yn 2021 yn cynnwys 34 o Wardiau Etholiadol. Bu newidiadau i 19 o Wardiau Etholiadol 2011.
Mae'r tabl isod yn rhestru'r 19 Ward Etholiadol sydd wedi newid ers 2011 ac yn rhoi disgrifiad o sut maent wedi newid.

| Enw | Disgrifiad |
|---|---|
| **Aberaeron ac Aberarth** | Yn flaenorol – 'Aberaeron' a 'Llansantffraed'. Ward Aberaeron wedi uno â rhan o ward Llansanffraed (cymuned Dyffryn Arth). |
| **Aber-porth a'r Ferwig** | Yn flaenorol – 'Aber-porth' a 'Phen-parc'. Ward Aber-porth wedi uno â rhan o Ben-parc (cymuned Y Ferwig) |
| **Aberystwyth Morfa a Glais** | Yn flaenorol – 'Aberystwyth Bronglais', 'Aberystwyth Canol/Central', 'Aberystwyth Gogledd/North'. Tair ward wedi uno. |
| **Beulah a Llangoedmor** | Yn flaenorol – 'Beulah' a 'Phen-parc'. Ward Beulah wedi'i huno â rhan o Ben-parc (cymuned Llangoedmor). |
| **Y Borth** | Newidiadau i'r enw. Yn flaenorol – 'Borth'. Dim newidiadau i'r ddaearyddiaeth. |
| **Ceulan a Maesmawr** | Newidiadau i'r enw. Yn flaenorol — Caelanamaesmawr. Dim newidiadau i'r ddaearyddiaeth. |
| **Ceinewydd a Llanllwchaearn** | Yn flaenorol – 'Ceinewydd' a 'Llandysillio-gogo'. Ward Ceinewydd wedi uno â rhan o ward Llandysilio-gogo (cymuned Llanllwchaiarn). |
| **Llanbedr Pont Steffan** | Lleihau nifer yr aelodau etholedig o 2 i 1. Dim newidiadau i'r ddaearyddiaeth. |
| **Llannarth** | Newidiadau i'r enw. Llanarth yn flaenorol. Dim newidiadau i'r ddaearyddiaeth. |
| **Llanbadarn Fawr** | Yn flaenorol – 'Llanbadarn Fawr-Padarn' a 'Llanbadarn Fawr-Sulien'. Dwy ward wedi uno. |
| **Llandysilio a Llangrannog** | Yn flaenorol – 'Llandysillio-gogo' a 'Phenbryn'. Ward Llandysilio-gogo wedi uno â rhan o Benbryn (cymuned Llangrannog). |
| **Gogledd Llandysul a Throed-yr-aur** | Yn flaenorol – 'Troedyraur' a 'Chapel Dewi'. Ward Troedyraur wedi uno â rhan o ward Capel Dewi (cymuned Pontshaen a Thregroes) |
| **De Llandysul** | Yn flaenorol – 'Tref Llandysul' a 'Chapel Dewi'. Tref Llandysul wedi uno â rhan o Gapel Dewi (cymuned Capel Dewi). |
| **Llansantffraid** | Cynnig newydd yn dileu rhan o Gymuned Dyffryn Arth (Ward Cymunedol Llanddewi Aber-arth). Mae Ward Etholiadol Llansanffraid bellach yn cynnwys rhan o Gymuned Dyffryn Arth (Ward Cymunedol Llanbadarn Trefegwlys) a Chymuned Llansantffraed. |
| **Lledrod** | Cynnig newydd yn dileu Cymuned Ystrad Fflur. |
| **Mwldan** | Enw wedi newid. Yn flaenorol – 'Aberteifi/ Cardigan – Mwldan'. Dim newidiadau i'r ddaearyddiaeth. |
| **Penbryn** | Cynnig newydd yn dileu cymuned Llangrannog o ward Penbryn. Bydd ward Penbryn bellach yn cynnwys cymuned Penbryn yn unig. |
| **Teifi** | Yn flaenorol – 'Aberteifi/Cardigan – Rhyd-y-Fuwch' ac 'Aberteifi/ Cardigan – Teifi'. Dwy ward wedi uno. |
| **Tregaron ac Ystrad Fflur** | Yn flaenorol – 'Tregaron' a 'Lledrod'. Mae ward Tregaron bellach wedi uno â rhan o ward Lledrod (cymuned Ystrad Fflur). |

# Cyfeiriadau


[1] Cyngor Sir Ceredigion (2018). Strategaeth Iaith Ceredigion 2018-23. [Ar-lein]. Ar gael yn: ceredigion-iaith-strategaeth-2018-23.pdf (Cyrchwyd: 20.12.2022).
[2] SYG – Cyfrifiad 1981, 1991, 2001, 2011 a 2021. Sgiliau Cymraeg (siarad). [Ar-lein]. Ar gael yn: Cyfrifiad o'r Boblogaeth – Ffynonellau Data – hafan – Nomis – Ystadegau Swyddogol y Cyfrifiad a'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 02.01.2023).
[3] Ibid.
[4] SYG – Cyfrifiad 2011 – Tabl KS207WA a Thabl Cyfrifiad 2021 – TS033 – Sgiliau Cymraeg. [Ar-lein]. Ar gael yn: Cyfrifiad Poblogaeth – Ffynonellau Data – hafan – Nomis – Ystadegau Swyddogol y Cyfrifiad a'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 02.1.2023).
[5] SYG (2021). TS032 – Sgiliau Cymraeg fesul ardal awdurdod lleol. [Ar-lein]. Ar gael yn: TS032 – Sgiliau Cymraeg – Nomis – Cyfrifiad Swyddogol ac Ystadegau'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 03.01.2023).
[6] SYG – Cyfrifiad 2011 – Tabl KS207WA a Thabl Cyfrifiad 2021 – TS033 – Sgiliau Cymraeg. [Ar-lein]. Ar gael yn: Cyfrifiad Poblogaeth – Ffynonellau Data – hafan – Nomis – Ystadegau Swyddogol y Cyfrifiad a'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 02.1.2023).
[7] SYG (2011). Cyfrifiad 2011 – Poblogaeth breswyl arferol, Tabl: KS101EW. [Ar-lein]. Ar gael yn: KS101EW (Poblogaeth breswyl arferol) – Nomis – Cyfrifiad Swyddogol ac Ystadegau'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 05.01.2023).
[8] SYG (2021). Cyfrifiad 2021 – TS001: Nifer y preswylwyr arferol mewn aelwydydd a sefydliadau cymunedol. [Ar-lein]. Ar gael yn: Swmp Cyfrifiad 2021 – Nomis – Cyfrifiad Swyddogol ac Ystadegau'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) . (Cyrchwyd: 05.01.2023).
[9] Llywodraeth Cymru (2022). Diweddariad y prif ystadegydd: deall Cyfrifiad 2021 am y Gymraeg. [Ar-lein]. Ar gael yn: Diweddariad y Prif Ystadegydd: deall data Cyfrifiad 2021 am y Gymraeg | Blog Digidol a Data (llyw.cymru) (Cyrchwyd: 06.01.2023).
[10] SYG (2021). Cyfrifiad 2021 – TS012, Gwlad enedigol (manwl). [Ar-lein]. Ar gael yn: Swmp Cyfrifiad 2021 – Nomis – Cyfrifiad Swyddogol ac Ystadegau'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 05.01.2023).
[11] SYG (2011). Cyfrifiad 2011 – ST20EWLA: Gwlad enedigol. [Ar-lein]. Ar gael yn: ST203EWLA (Gwlad Enedigol) – Nomis – Cyfrifiad Swyddogol ac Ystadegau'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 05.01.2023).
[12] SYG (2021). Cyfrifiad 2021 – TS012, Gwlad enedigol (manwl). [Ar-lein]. Ar gael yn: Swmp Cyfrifiad 2021 – Nomis – Cyfrifiad Swyddogol ac Ystadegau'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 05.01.2023).
[13] SYG (2021). Cyfrifiad 2021 – TS024: Prif iaith (manwl). [Ar-lein]. Ar gael yn: Swmp Cyfrifiad 2021 – Nomis – Cyfrifiad Swyddogol ac Ystadegau'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 10.01.2023).
[14] SYG (2021). Cyfrifiad 2021 – TS032: Sgiliau Cymraeg (manwl). [Ar-lein]. Ar gael yn: Swmp Cyfrifiad 2021 – Nomis – Cyfrifiad Swyddogol ac Ystadegau'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 10.01.2023).
[15] SYG – Cyfrifiad 1981, 1991, 2001, 2011 a 2021. Sgiliau Cymraeg (siarad). [Ar-lein]. Ar gael yn: Cyfrifiad o'r Boblogaeth – Ffynonellau Data – hafan – Nomis – Ystadegau Swyddogol y Cyfrifiad a'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 02.01.2023).
[16] Llywodraeth Cymru (2001-2021). Data Cymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2001-2021. [Ar-lein]. Ar gael yn: Data Cymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth | LLYW.CYMRU(Cyrchwyd: 11.01.2023).
[17] Ystadegau Cymru (2019). Canran yr oedolion sy'n siarad Cymraeg (gan gynnwys y ganran sydd â rhywfaint o allu i siarad Cymraeg) yn ôl awdurdod lleol. [Ar-lein]. Ar gael yn: Canran yr oedolion sy'n siarad Cymraeg (gan gynnwys y ganran nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg ac sydd â rhywfaint o allu i siarad Cymraeg) yn ôl awdurdod lleol (llyw.cymru) (Cyrchwyd: 19.01.23).
[18] NOMIS (2011). Cyfrifiad 2011, Tabl – LC2106WA. [Ar-lein]. Ar gael yn: LC2106WA (Sgiliau Cymraeg yn ôl rhyw yn ôl oedran) – Nomis – Ystadegau Swyddogol y Cyfrifiad a'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 03.01.2023).
[19]NOMIS (2021). Cyfrifiad 2021, Tabl – TS076. [Ar-lein]. Ar gael yn: TS076 – Sgiliau Cymraeg – Nomis – Cyfrifiad

Swyddogol ac Ystadegau'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 03.01.2023).
[20] SYG (2021). Cyfrifiad 2021, Tabl TS001: Nifer y preswylwyr arferol mewn aelwydydd a sefydliadau cymunedol. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nifer y preswylwyr arferol mewn aelwydydd a sefydliadau cymunedol – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG.gov.uk) (Cyrchwyd: 30.01.2023).
[21] SYG (2001-2021). Cyfrifiad 2001, 2011 a 2021. Sgiliau iaith Gymraeg (siarad) yn ôl oedran. [Ar-lein]. Ar gael yn: Cyfrifiad o'r Boblogaeth – Ffynonellau Data – hafan – Nomis – Ystadegau Swyddogol y Cyfrifiad a'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 15.01.2023).
[22] Ibid.
[23] Ystadegau Cymru (2022). Disgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf yn ôl awdurdod lleol a grŵp blwyddyn. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Welsh-Language/pupilstaughtwelshprimarymiddlesecondaryschools-by-localauthority-year (Cyrchwyd: 09.01.2023).
[24] Ystadegau Cymru (2022). Disgyblion yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math cyfrwng Cymraeg. [Ar-lein]. Ar gael yn: Disgyblion yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math cyfrwng Cymraeg (llyw.cymru) (Cyrchwyd: 29.03.2023).
[25] Llywodraeth Cymru (2022). Diweddariad y Prif Ystadegydd: [deall data Cyfrifiad 2021 am y Gymraeg. [Ar-lein]. Ar gael yn: Diweddariad y Prif Ystadegydd : deall data Cyfrifiad 2021 am y Gymraeg | Blog Digidol a Data (llyw.cymru) (Cyrchwyd: 10.01.2023).
[26] SYG (2001-2021). Cyfrifiad 2001, 2011 a 2021. Sgiliau Cymraeg (siarad) yn ôl oedran. [Ar-lein]. Ar gael yn: Cyfrifiad Poblogaeth – Ffynonellau Data – hafan – Nomis – Ystadegau Swyddogol y Cyfrifiad a'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 15.01.2023).
[27] SYG (2021). Cyfrifiad 2021, Tabl TS001: Nifer y preswylwyr arferol mewn aelwydydd a sefydliadau cymunedol. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nifer y preswylwyr arferol mewn aelwydydd a sefydliadau cymunedol – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG.gov.uk) (Cyrchwyd: 30.01.2023).
[28]SYG (2011). Sgiliau Cymraeg yn ôl rhyw yn ôl oedran. [Ar-lein]. Ar gael yn: DC2106WALA (Sgiliau Cymraeg yn ôl rhyw yn ôl oedran) – Nomis – Ystadegau Swyddogol y Cyfrifiad a'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 30.01.2023).
[29] SYG (2021). TS076 – Sgiliau Cymraeg (siarad) yn ôl blwyddyn sengl. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Cyfrifiad Swyddogol ac Ystadegau'r Farchnad Lafur – Nomis – Ystadegau Swyddogol y Cyfrifiad a'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 30.01.2023).
[30] HESA (2021). Cofrestriadau myfyrwyr Addysg Uwch yn ôl darparwr Addysg Uwch – 2020/21. [Ar-lein]. Ar gael yn: Ble mae myfyrwyr AU yn astudio? | HESA (Cyrchwyd: 10.01.2023).
[31]Llywodraeth Cymru (2022). Diweddariad y Prif Ystadegydd: deall data Cyfrifiad 2021 am y Gymraeg. [Ar-lein]. Ar gael yn: Diweddariad y Prif Ystadegydd: deall data Cyfrifiad 2021 am y Gymraeg | Blog Digidol a Data (llyw.cymru) (Cyrchwyd: 23.01.23).
[32]Llywodraeth Cymru (2020). Pa ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl sy'n siarad Cymraeg? [Ar-lein]. Ar gael yn: Pa ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl sy'n siarad Cymraeg? (llyw.cymru) (Cyrchwyd: 24.01.2023).
[33] SYG (2021). TS033 – Sgiliau Cymraeg (siarad). [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Cyfrifiad Swyddogol ac Ystadegau'r Farchnad Lafur – Nomis – Ystadegau Swyddogol y Cyfrifiad a'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 30.01.2023).
[34]SYG (2021). TS033 – Sgiliau Cymraeg (siarad). [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Cyfrifiad Swyddogol ac Ystadegau'r Farchnad Lafur – Nomis – Ystadegau Swyddogol y Cyfrifiad a'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 30.01.2023).
[35] SYG (2021). TS032 – Sgiliau Cymraeg (manwl). [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Cyfrifiad Swyddogol ac Ystadegau'r Farchnad Lafur – Nomis – Ystadegau Swyddogol y Cyfrifiad a'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 30.01.2023).
[36]SYG (2023). Y boblogaeth breswyl arferol mewn addysg amser llawn erbyn 18 i 30 oed, Cymru a Lloegr – Cyfrifiad 2021. [Ar-lein]. Ar gael yn: Y boblogaeth breswyl arferol mewn addysg amser llawn erbyn 18 i 30 oed,

Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021 – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG.gov.uk) (Cyrchwyd: 30.01.2023).
[37] HESA (2022). Ble maen nhw'n astudio? Ar-lein]. Ar gael yn: Ble mae myfyrwyr AU yn astudio? | HESA (Cyrchwyd: 30.02.2023).
[38] SYG (2011). Gwlad Enedigol – Tabl: KS204EW. [Ar-lein]. Ar gael yn: KS204EW (Gwlad enedigol) – Nomis – Cyfrifiad Swyddogol ac Ystadegau'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 27.01.2023).
[39] SYG (2021). Gwlad Enedigol – Tabl: TS012. [Ar-lein]. Ar gael yn: Swmp Cyfrifiad 2021 – Nomis – Cyfrifiad Swyddogol ac Ystadegau'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 27.10.2023).
[40] SYG (2001). Cyfrifiad 2001 – Tabl KS005 Gwlad enedigol. [Ar-lein]. Ar gael yn: KS005 – Gwlad enedigol – Nomis – Cyfrifiad Swyddogol ac Ystadegau'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 30.01.2023).
[41] SYG (2011). Cyfrifiad 2011 – QS203EW: Gwlad enedigol. [Ar-lein]. Ar gael yn: QS203EW (Gwlad enedigol (manwl)) – Nomis – Cyfrifiad Swyddogol ac Ystadegau'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 30.01.2023).
[42] HESA (2018-2021). Myfyrwyr AU sy'n hanu o'r DU yn ôl darparwr AU a domisil – blynyddoedd academaidd 2014/15 i 2020/21. [[Ar-lein]. Ar gael yn: O ble mae myfyrwyr AU yn dod? | HESA (Cyrchwyd: 30.012.2023).
[43] SYG (2011). Cyfrifiad 2011 – Tabl: QS214EW – Hunaniaeth genedlaethol (manwl). [Ar-lein]. Ar gael yn: QS214EW (Hunaniaeth Genedlaethol (manwl)) – Nomis – Ystadegau Swyddogol y Cyfrifiad a'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 30.01.2023).
[44] Llywodraeth Cymru (2022). Cael mynediad i'r Gymraeg yn ystod pandemig Covid-19: heriau a chymorth ar gyfer aelwydydd di-Gymraeg. [Ar-lein]. Ar gael yn: covid-rs3-final-cy.pdf (llyw.cymru) (Cyrchwyd: 09.01.23).
[45] Ibid.
[46] NOMIS (2021). TS007-Oedran yn ôl blwyddyn sengl, Cyfrifiad 2021. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Cyfrifiad Swyddogol ac Ystadegau'r Farchnad Lafur – Nomis – Ystadegau Swyddogol y Cyfrifiad a'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 09.01.2023).
[47] NOMIS (2021). KS102EW – Strwythur oedran, Cyfrifiad 2011. [Ar-lein]. Ar gael yn: KS102EW (Strwythur oedran) – Nomis – Cyfrifiad Swyddogol ac Ystadegau'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 09.01.2023).
[48] NOMIS (2021). TS012 – Gwlad enedigol (manwl), Cyfrifiad 2021. Ar gael yn: TS012 – Gwlad enedigol – Nomis – Cyfrifiad Swyddogol ac Ystadegau'r Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 09.01.2023).